***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2000 Rhif 3340 (Cy. 218)

# ANIFEILIAID, CYMRU

ANIFEILIAID DINISTRIOL

## Gorchymyn Cadw Mincod (Cymru) 2000

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *19 Rhagfyr 2000* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ionawr 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i fodloni mewn perthynas â'r rhywogaeth famalaidd anfrodorol sy'n destun y Gorchymyn hwn ei bod yn ddymunol eu rheoli oherwydd eu harferion dinistriol a difa unrhyw rai ohonynt sy'n rhydd, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 10(1) o Ddeddf Anifeiliaid Dinistriol a Fewnforir 1932(**1**) ac a freiniwyd ynddo(**2**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Teitl, cymhwyso, cychwyn a pharhad

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cadw Mincod (Cymru) 2000, bydd yn gymwys i Gymru a daw i rym ar 1 Ionawr 2001.

(2) Bydd effaith y Gorchymyn hwn yn peidio ar 1 Ionawr 2004.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn —

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Anifeiliaid Dinistriol a Fewnforir 1932; ac

ystyr "mincod" ("*mink*") yw'r anifeiliaid sy'n perthyn i'r rhywogaeth *Mustela vison*.

---

(**1**) 1932 p. 12; diwygiwyd adran 11 (dehongli) gan O.S. 1992/3302.

(**2**) Mae'r swyddogaethau a roddwyd gan adran 10 o'r Ddeddf i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd wedi'u datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y mae'r swyddogaethau yn arferadwy mewn perthynas â Chymru. Trosglwyddwyd y swyddogaethau yn adran 10 yn rhinwedd erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Mae Gorchymyn 1999 yn darparu eithriad i'r trosglwyddo swyddogaethau o dan adran 10 o Ddeddf 1932 pan fydd gweithredu'r swyddogaethau yn ymwneud â mewnforio mathau o anifeiliaid y mae'r Ddeddf yn ymwneud â hwy. Mae'r eithriad hwn yn cael yr effaith o drosglwyddo i'r Cynulliad Cenedlaethol dim ond y swyddogaethau a roddwyd i Ysgrifennydd Gwladol Cymru gan Orchymyn Trosglwyddo Swyddogaethau (Cymru) 1969 (O.S.1969/388). Darparodd Gorchymyn 1969 fod y pwerau yn adran 10 i'w gweithredu ar y cyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd. Mae'r Gorchymyn hwn yn ymwneud â chadw mincod, nid mewnforio mincod, ac felly nid yw'r eithriad yng Ngorchymyn 1999 yn gymwys.

**Cadw mincod**

**3.** Gwaherddir cadw mincod, ac eithrio o dan drwydded a roddir o dan y Ddeddf.

**Eithriadau wrth gymhwyso'r Ddeddf**

**4.** Wrth gymhwyso'r Ddeddf at fincod, hepgorir adran 5(2) ac, yn adran 6(1), baragraff (f) a'r cyfeiriad at gosb yn achos tramgwydd o dan baragraff (f).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

19 Rhagfyr 2000

(**3**) 1998 c. 38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn parhau i gymhwyso yng Nghymru y dulliau rheoli a osodwyd ym Mhrydain Fawr gan Orchymyn Cadw Mincod 1997 (O.S. 1997/3002), y mae ei effaith yn dod i ben ar 1 Ionawr 2001. Mae Gorchmynion tebyg i barhau i gymhwyso'r dulliau rheoli hyn mewn perthynas â'r Alban a Lloegr yn cael eu paratoi ar ran Gweinidogion yr Alban a'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd.

Mae Erthygl 1 yn darparu teitl y Gorchymyn, ei fod yn gymwys i Gymru, ei fod yn cychwyn ar 1 Ionawr 2001 a bod ei effaith yn dod i ben ar 1 Ionawr 2004. Mae Erthygl 2 yn cynnwys diffiniad o'r Ddeddf y mae'r Gorchymyn yn cael ei wneud odani, a diffiniad o "mincod". Mae Erthygl 3 yn gwahardd cadw mincod ac eithrio o dan drwydded.

Yn ddarostyngedig i'r eithriadau a wneir gan erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn, mae darpariaethau Deddf Anifeiliaid Dinistriol a Fewnforir 1932 yn parhau i fod yn gymwys yng Nghymru i fincod nes i effaith y Gorchymyn hwn ddod i ben ar 1 Ionawr 2004. Mae'r eithriadau hyn yn ymwneud â'r ddyletswydd sydd ar dirfeddianwyr i roi hysbysiad o bresenoldeb mincod, nad ydynt yn cael eu cadw o dan drwydded, ar eu tir.